



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Trwsio materion systemig trwy gydweithio

Sut mae Croeso Cymru'n gweithio gydag eraill dros dwristiaeth gynaliadwy



Llwybr Arfordir Cymru sy'n ymestyn dros 870 milltir

### Trosolwg

Mae Croeso Cymru'n gweithio ar draws ffiniau ac ar draws sectorau i gyflwyno ymagwedd at dwristiaeth yng Nghymru sy'n ystyried twf economaidd, cadwraeth amgylcheddol, lles cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol Cymru.

### Cefndir

Croeso Cymru yw tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, o fewn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Ei rôl yw cefnogi diwydiant twristiaeth Cymru, gwella twristiaeth yng Nghymru a darparu'r fframwaith strategol priodol y gall mentrau preifat ei ddefnyddio i dyfu mewn ffordd gynaliadwy ac i sicrhau llwyddiant cynaliadwy, a gwella lles cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Mae twristiaeth yn cynrychioli tua 4.4% o gyfanswm Gwerth Ychwanegol Cryswth Economi Cymru ac yn cyflogi dros 88,000 o bobl – mae bron i 1 o bob 5 swydd yn Sir Benfro a Chonwy mewn twristiaeth. Yn ystod 2011, gwelwyd dros 10.5 miliwn o ymweliadau gan ymwelwyr domestig a rhyngwladol, gyda'r rhan fwyaf yn dod ar gyfer tirweddau naturiol Cymru, ei thraethau, ei gweithgareddau a'i diwylliant.

#### Canlyniadau

**Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru**

#### Tystiolaeth

**Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth**

#### Cydweithio

**Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau**

#### Hir dymor

**Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau**

#### Cysylltu

**Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol**

#### Tryloywder

**Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno**

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Fel a amlinellir yn y strategaeth twristiaeth newydd i Gymru, "Partneriaeth ar gyfer Twf 2020", mae'r sector twristiaeth wedi ymrwmo i dwf cynaliadwy ac yn cydnabod bod angen diogelu'r rhinweddau hynny sy'n denu ymwelwyr, fel y dirwedd, diwylliant, iaith a threftadaeth, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan greu gwerth hir dymor a swyddi.

### Pam

Caiff ymagwedd Croeso Cymru at gynaliadwyedd ei gyrru gan natur gymhleth a systemig yr heriau a'r gwaith y mae'n eu hwynebu.

Yr amgylchedd naturiol a diwylliant lleol yw rhai o brif atyniadau Cymru, ac felly mae eu gwarchod a'u gwella yn bwysig iawn i dwristiaeth yng Nghymru. Mae twristiaid yn dod yn fwy a mwy ymwybodol o foeseq ac, fel ymwelwyr, yn disgwyl profiad sy'n sensitif yn amgylcheddol, yn cynnig nawws cryf am le ac wedi ei gysylltu'n agos at gymunedau lleol. Ni all Croeso Cymru wneud y gwaith hwn ar ei ben ei hun ac felly mae wedi cael ei yrru i weithio ar y cyd gyda mudiadau eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.

Roedd Croeso Cymru hefyd wedi cydnabod bod rheoli ac addasu at newid hinsawdd yn mynd i fod yn hanfodol i ddyfodol twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru. Mae angen ystyried effaith newidiadau byd-eang ar yr hinsawdd, effeithiau lleol fel argaeledd cyflenwad dŵr yn ystod cyfnodau o sychder, mwy o stormydd a'r perygl o lifogydd a newidiadau yn nosbarthiad bywyd gwyllt, wrth gynllunio datblygiadau twristiaeth.

**"Gan mai'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd naturiol yw asedau gorau Cymru o ran twristiaeth, mae'n allweddol cynnal a chadw'r ardaloedd hyn, eu gwarchod, eu diogelu a'u gwella."**

Stephanie Woodward, Uwch Reolwr Partneriaethau a Datblygu Rhaglenni

### Beth wnaethon nhw

Er mwyn tyfu twristiaeth yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy, mabwysiadodd Croeso Cymru Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy yn 2007, gan nodi'r amcanion allweddol canlynol:

- Hyrwyddo ffyniant lleol
- Cefnogi lles y gymuned a chyfranogiad y gymuned
- Cadw effaith amgylcheddol twristiaeth i leiafswm
- Gwarchod diwylliant a threftadaeth naturiol a rhoi gwerth iddynt

Mae gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i'r rhain, ac felly sefydlodd Croeso Cymru nifer o grwpiau sy'n cydweithio ar faterion ar draws Cymru.

**"Y cysyniad arbennig yng Nghymru wrth symud ymlaen yw cydweithio ar yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil twristiaeth gynaliadwy, gan uno ein ffordd o feddwl a mynd ar drywydd canlyniadau sy'n gwella lles Cymru."**

Stephanie Woodward, Uwch Reolwr Partneriaethau a Datblygu Rhaglenni

Sefydlwyd **Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy** yn 2007 i gydlynu datblygiad twristiaeth gynaliadwy ar draws Cymru. Mae 40 o fudiadau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ym cwrdd dair gwaith y flwyddyn i ddatblygu camau gweithredu i gyflawni canlyniadau cynaliadwy, a'u gyrru, ar y cyd.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Er enghraifft, mae'r fforwm wedi arwain at ddatblygiad is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar hybu arfordir Cymru, a'i gynaliadwyedd.

Mae **Fforwm Arfordirol Cymru Gyfan** yn gosod y cyfeiriad ar gyfer buddsoddiad a datblygiad twristiaeth ar yr arfordir, tra bod **Partneriaeth Môr Glas**, a sefydlwyd ym 1996, yn dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i ddiogelu a gwella arfordir Cymru, gan wella ansawdd traethau, yr amgylchedd adeiledig a naturiol a chynnal, cadw a gwella ansawdd dŵr y môr.

**Mae Amgylchedd ar gyfer Twf**, sef thema sy'n flaenoriaeth o fewn Rhaglen Cydgyfeirio ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru 2007-13, yn dod â phartneriaeth gref ynghyd rhwng Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, Adfywio, Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn cydweithio ers 2008 i ddatblygu cyfres gyffrous o chwe phrosiect strategol: Parc Rhanbarthol y Cymoedd; Twristiaeth Treftadaeth; Cymunedau a Natur; Llwybr Arfordir Cymru; Twristiaeth Arfordirol; a Thwristiaeth Gynaliadwy. Gyda'i gilydd, mae pob un o'r chwe phrosiect yn gwella atyniad cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â rhai newydd, rhai naturiol a rhai a wnaed gan ddyn, gan gynnwys datblygu canolfannau rhagoriaeth, marinas, llwybrau cerdded a beicio, llwybrau troed arfordirol a gwasanaethau a chyfleusterau ategol, y cyfan yn gwella mwynhad a mynediad at yr arfordir a chefn gwlad.

**Mae Rheoli Cyrchfannau yn gydymagwedd arall y mae** Croeso Cymru wedi ei datblygu, i greu system i gydlynu'r holl weithgareddau a gwasanaethau sy'n effeithio ar ymwelwyr, a'u gallu i fwynhau cyrchfan. Nid ymagwedd ragnodol mohoni – yn hytrach mae wedi cael ei chynllunio i'w harwain o'r gwaelod i fyny, mewn partneriaeth, gan fudiadau ac unigolion o fewn cyrchfan, i greu Cynllun Rheoli Cyrchfan y cytunwyd arno, sy'n nodi bylchau mewn ansawdd a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

### Beth newidiodd

Mae'r ymagwedd o bartneriaeth yn golygu bod strategaethau a chamau gweithredu'n cael eu datblygu gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod strategaeth unedig a chynllun gweithredu'n cael eu ffurfio.

Galluogodd y Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy fudiadau i gydnabod yr heriau allweddol i fwy o dwristiaeth yng Nghymru, ar y cyd, ac i feddwl pa fudiadau fydd angen cydweithio'n agosach wrth symud ymlaen. Yn 2009, sicrhawyd dau bot nawdd gwerth £35 miliwn i drosglwyddo prosiectau twristiaeth arfordirol cynaliadwy.

Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn erbyn y cynllun gweithredu strategol a gyflwynwyd rhwng 2009 a 2012, a oruchwyliwyd gan grŵp llywio a Fforwm Twristiaeth Arfordirol Cymru, sy' gweithredu ar draws Cymru gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd agor Llwybr Arfordir Cymru yn brosiect allweddol a gyflwynwyd yn ystod oes y cynllun hwn, ac roedd yn dangos perthynas weithiol gref rhwng twristiaeth a phartneriaid, ble 'roedd Croeso Cymru yn arwain datblygiad strategaeth marchnata a chyfathrebu ar gyfer y llwybr.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Mae'r Bartneriaeth Môr Glas yn enghraifft arall sy'n dangos buddion cydweithio. Ers ei lansio ym 1996, mae'r bartneriaeth wedi bod yn yrrwr ansawdd allweddol mewn twristiaeth arfordirol yng Nghymru, ac wedi sicrhau dau brosiect Undeb Ewropeaidd olynol trwy Brosiect Twristiaeth Arfordirol Amgylchedd ar gyfer Twf. Ym 1995 roedd gan Gymru 2 draeth Baner Las, sy'n warant o reolaeth, cyfleusterau ac ansawdd dŵr o ansawdd uchel, ac yn 2012 fe gynyddodd i 43. Mae'r Bartneriaeth Môr Glas hefyd wedi bod yn ddylanwadol iawn wrth helpu awdurdodau lleol i gydweithio, gan rannu nawdd er budd pawb ar draws ffiniau sirol.

### Pa rwystrau oedd yn bodoli

Oherwydd natur amrywiol y sector twristiaeth yng Nghymru, mae meithrin cysylltiadau effeithiol rhwng pob rhanddeiliad allweddol yn y diwydiant yn medru bod yn heriol, yn

enwedig ar lefel leol. Trwy Reoli Cyrchfannau a phartneriaethau, mae'r rhwystrau rhwng cydweithio ar draws sectorau yn gostwng, a'r gallu i gael gwybodaeth fwy manwl o'r diwydiant lleol yn cynyddu.

Her arall i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yw hyrwyddo cludiant cynaliadwy, am fod cymaint o bobl, mudiadau a seilwaith ynghlwm, a hynny ar draws Cymru gyfan. Trwy weithio'n eang ac ar draws ffiniau, mae Croeso Cymru wedi bod yn gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid, trwy grŵp Cludiant a Thwristiaeth Cynaliadwy, i godi ymwybyddiaeth o'r heriau hyn ac i gydweithio i ddatblygu prosiectau.

### Beth ddysgon nhw

Mae alinio targedau, nodau a gweledigaethau strategol gwahanol adrannau a mudiadau yn gam pwysig er mwyn cael ymagwedd unedig, ar y cyd.

Trwy weithio gydag Ysgol Fusnes Caerdydd, lluniodd Croeso Cymru set allweddol o ddangosyddion a chanlyniadau ar gyfer ei Gynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy a oedd yn alinio gydag amcanion cynaliadwyedd ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae twristiaeth, fel cynaliadwyedd, yn destun sy'n croesi pob sector. Mae'n cael effaith bwysig ar yr economi, yr amgylchedd a chymunedau ar draws Cymru ac felly mae'n gyfle i ddod â phob sector ynghyd mewn ffordd unedig.

### Manylion Cyswllt a Dolenni

**Stephanie Woodward**  
**Uwch Reolwr Partneriaethau a Datblygu**  
**Rhaglenni, Croeso Cymru**  
[stephanie.woodward@wales.gsi.gov.uk](mailto:stephanie.woodward@wales.gsi.gov.uk)  
**0300 061 5644**  
Twristiaeth Gynaliadwy Fframwaith i Gymru  
Rheoli Cyrchfannau

*"Mae adnabod y canlyniadau yr ydych chi am eu cyflawni, a sicrhau bod pawb ar yr un dudalen, mor bwysig. Ar ddiwedd y dydd, dylai ein bod ni oll eisiau gweld yr un canlyniadau oherwydd rydyn ni oll yn siarad am Gymru gynaliadwy."*

Stephanie Woodward,  
Uwch Reolwr Partneriaethau a Datblygu  
Rhaglenni

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>